Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol San Siôr

**Church Walks**
**Llandudno**
**Conwy**
**LL30 2HL**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol San Siôr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol San Siôr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Saesneg yn bennaf gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 234 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 183 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 28 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 6.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 6.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 5.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 13.7% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 08/04/2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/05/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 30/09/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol San Siôr yn gymuned hapus a gofalgar. Mae'r pennaeth wedi rhannu gweledigaeth glir yn seiliedig ar 'Calon San Siôr' ac mae'n gweithio'n bwrpasol gyda staff, llywodraethwyr a disgyblion i sicrhau amgylchedd diogel a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae disgyblion yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol yn gofalu amdanynt ac y gallant droi atynt pan fyddant yn wynebu heriau neu'n cael anawsterau. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn mynychu'n rheolaidd, yn ymddwyn yn dda ac yn gweithio a chwarae gyda'i gilydd yn hapus.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn bodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru, yn fras, a chaiff ei ategu gan werthoedd ac ethos cryf yr ysgol. Mae athrawon a staff cymorth yn cynllunio profiadau dysgu difyr sy'n helpu sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn gwneud cynnydd addas â'u medrau yn ystod gwersi a thros gyfnod. Mae ystafelloedd dosbarth a gofodau awyr agored yn amgylcheddau dysgu cynhyrchiol a gweithgar. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda yn ystod gwersi ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn bwrpasol; fodd bynnag, nid yw athrawon yn herio pob un o'r disgyblion yn gyson i ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol yn ddigon da.

Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd addas. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau llythrennedd Saesneg a'u medrau digidol ac yn defnyddio'r rhain yn dda i gefnogi eu dysgu mewn pynciau eraill. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau rhifedd, mae cyfleoedd i gymhwyso'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu medrau Cymraeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac ystyriol, sy'n sicrhau bod gan yr ysgol gyfeiriad strategol clir. Caiff ei gefnogi'n dda gan dîm ymrwymedig o staff ymroddgar a gofalgar. Mae prosesau gwerthuso yn nodi meysydd i'w gwella yn gywir, er enghraifft yr angen i athrawon roi adborth mwy penodol i ddisgyblion i'w helpu i wella'u gwaith.

## Argymhellion

Mae gennym dri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Sicrhau bod addysgu yn darparu her briodol yn gyson i bob un o'r disgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol effeithiol

A2 Sicrhau bod adborth athrawon yn cynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith yn gyson

A3 Darparu ymagwedd ysgol gyfan systematig at ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac ystyriol sy’n sicrhau bod gan yr ysgol gyfeiriad strategol clir ac yn hyrwyddo cymuned glòs a chynhwysol. Mae’n disgrifio gweledigaeth glir sydd wedi’i seilio ar ‘Calon San Siôr’ ac yn cyfleu’r weledigaeth hon yn llwyddiannus i staff, disgyblion a llywodraethwyr. Mae hyn yn sicrhau bod lles disgyblion wrth wraidd eu gwaith. Gyda’i gilydd, maent wedi creu diwylliant diogelu cadarnhaol ac amgylchedd croesawgar a meithringar lle mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae disgyblion yn gwybod y bydd staff yn gwrando ar unrhyw bryderon a allai fod ganddynt, ac yn gweithredu arnynt. Mae hyn yn arwain at gymorth a pharch ar y ddwy ochr rhwng disgyblion ac oedolion sy’n gweithio yn yr ysgol. Trwy wasanaethau rheolaidd ac ‘Amser Cymunedol’ a gyflwynwyd yn ddiweddar, mae staff yn meithrin medrau personol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn ystyriol, gan roi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd a phriodoleddau fel parch, caredigrwydd a dyfalbarhad.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohono’i hun ac eraill. Caiff ei gefnogi’n dda gan y tîm arweinyddiaeth. Maent yn modelu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy’n cyfrannu’n bwrpasol at gydweithio effeithiol ymhlith staff. Mae hyn yn arwain at ethos tîm cryf, lle mae staff ymroddgar a gweithgar yn cydweithio’n effeithiol. Maent wedi sefydlu disgwyliadau clir o ymddygiad da gan ddisgyblion, ac mae hyn wedi helpu staff i sicrhau bod bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn dosbarthiadau ac ym mhob agwedd ar fywyd ysgol. Maent yn gweithio ac yn chwarae gyda’i gilydd yn hapus, ac yn groesawgar, yn gwrtais ac yn barchus at staff ac ymwelwyr. Mae gan yr ysgol systemau effeithiol i sicrhau presenoldeb rheolaidd, ac o ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu’r ysgol yn rheolaidd.

Mae arweinwyr a staff yn gwybod beth yw anghenion disgyblion a’r gymuned leol ac maent yn gweithio’n effeithiol i ddiwallu’r anghenion hyn. Maent wedi ymrwymo i fynd i’r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Gyda’i gilydd, maent wedi cyflwyno gweledigaeth glir ar gyfer y cwricwlwm yn ddiweddar sy’n adlewyrchu Cwricwlwm i Gymru yn fras, yn ystyried yr ardal leol ac yn diwallu anghenion llawer o ddisgyblion yn briodol. Mae diwylliant ystyriol a chynhwysol yn ganolog iddo, sy’n helpu disgyblion i gael ymdeimlad cadarn o berthyn a datblygu’r hyder a’r medrau i ymgysylltu’n gadarnhaol â’r holl brofiadau dysgu. Mae’r pennaeth yn cydnabod bod angen rhannu arfer dda yn fwy effeithiol ar draws yr ysgol. Mae’n sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd i gydweithio wrth iddynt gynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion a myfyrio ar y cynnydd a wna disgyblion wrth iddynt symud trwy’r ysgol.

Mae'r trefniadau ar gyfer nodi ac ymateb i anghenion disgyblion ag ADY yn briodol. Mae staff yn darparu ymyriadau ystyrlon i gynorthwyo'r rhai ag anghenion emosiynol. Maent yn cynnwys disgyblion, rhieni, a barn asiantaethau allanol i gynllunio ymyriadau a gwerthuso'u heffaith. Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion y mae tlodi ac anfantais yn cael effaith andwyol arnynt, yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau o'u mannau cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn symud ymlaen ar gyflymdra priodol a bod dysgwyr yn symud rhwng gweithgareddau yn esmwyth ac yn chwim. Maent yn defnyddio holi yn effeithiol i symud dysgu'r disgyblion ymlaen ac yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion, gan sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn cael eu herio'n briodol. Mae defnydd effeithiol o seibiannau byr yn ystod gweithgareddau yn cynorthwyo disgyblion i feddwl yn feirniadol am eu gwaith a chyfiawnhau eu barn a'u casgliadau. Yn yr enghreifftiau prin, lle mae adborth athrawon yn fwyaf effeithiol, mae disgyblion yn cydnabod beth maent wedi'i wneud yn dda yn eu gwaith a ble y gallent wneud gwelliannau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws pob dosbarth. Ar adegau, mae staff yn tueddu i or-gyfarwyddo dysgu'r disgyblion ac nid yw'r gweithgareddau bob amser yn herio pob un o'r disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol yn ddigon da.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn meithrin eu medrau llythrennedd yn Saesneg. Maent yn datblygu eu medrau siarad yn gyson dros gyfnod ac yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn huawdl. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion iau ddatblygu medrau darllen cynnar, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgybion yn gwneud cynnydd cadarn. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen amrywiaeth o destunau yn rhugl a gyda mynegiant da, ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r hyn y maent yn ei ddarllen. Mae hyn yn eu galluogi i gymhwyso'u medrau darllen yn effeithiol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ymchwilio i sut mae creaduriaid yn addasu yn haenau dyfnach y cefnfor. Mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda ac maent yn ysgrifennu'n bwrpasol ar draws ystod addas o genres, er enghraifft wrth ysgrifennu cofiant gweithredwr newid hinsawdd. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth briodol o Gymraeg llafar mewn sefyllfaoedd cyfarwydd. Maent yn rhoi atebion syml yn ystod trafodaethau ag athrawon a gyda'i gilydd. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfle i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth am y Gymraeg yn systematig mewn gwersi. O'r herwydd, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu medrau Cymraeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau rhifedd a'u dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm ac mewn cysyniadau dilys. Mae medrau digidol disgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol. Maent yn defnyddio pecynnau digidol yn bwrpasol i gefnogi datblygiad eu medrau llythrennedd a rhifedd, ac mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o sut i aros yn ddiogel wrth weithio ar-lein. Mae hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gymhwyso'u medrau digidol yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn cynllunio'n llwyddiannus ar gyfer datblygu medrau corfforol disgyblion. Mae disgyblion iau, er enghraifft, yn datblygu eu medrau echddygol manwl trwy drin a siapio clai i greu model o

ddraenog. Mae disgyblion o bob oedran yn mwynhau gweithgareddau corfforol yn ystod gwersi addysg gorfforol, ac yn ystod sesiynau mathemateg pen, er enghraifft, ac yn ardal y goedwig.

Mae trefniadau i fonitro a gwerthuso gwaith yr ysgol yn galluogi arweinwyr i nodi agweddau sydd angen eu gwella fwyaf. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd gwerthfawr i elwa ar weithgareddau dysgu proffesiynol. Mae'r rhain yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol, er enghraifft i wella medrau darllen disgyblion ymhellach a sicrhau bod disgyblion yn fwy gweithgar yn gorfforol yn ystod gwersi. Mae staff yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o ysgolion lleol hefyd i rannu agweddau ar arfer dda, er enghraifft wrth ddefnyddio asesu ffurfiannol. Ymgorfforir hyn mewn ychydig o ddosbarthiadau, ond mae'n rhy gynnar i werthuso'r effaith ar ddysgu'r disgyblion ar draws yr ystod oedran.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus, yn effeithiol ac wedi ymrwymo i gefnogi'r ysgol. Mae aelodau yn deall cyd-destun yr ysgol, ei chryfderau a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella yn dda. Maent yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan arweinwyr yr ysgol ynghylch cynnydd tuag at feysydd i'w gwella a nodwyd, ac mae aelodau unigol yn ymweld â'r ysgol i gynnal teithiau dysgu a gwrando ar ddysgwyr. Mae hyn yn eu galluogi i herio arweinwyr yn synhwyrol fel ffrindiau beirniadol a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch ar y safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  02/12/2024